Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llangynnwr

Lôn Penymorfa
Pensarn
Llangynnwr
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 2NN

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llangynnwr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llangynnwr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3,2 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 316 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 223 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 50 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 7.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 11.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 30.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 25/09/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/02/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinwyr medrus yn sefydlu diwylliant cadarnhaol ac ethos cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar ddysgu a lles disgyblion yn gydwybodol a chywrain. Mae'r athroniaeth anogol hwn, sy'n ganolog i'w strategaethau gwella, yn arwain at ymddygiad rhagorol a brwdfrydedd ar gyfer dysgu ymhlith disgyblion. Mae parodrwydd arweinwyr i wella arferion yr ysgol trwy werthusiadau rheolaidd a threfnus yn cyfrannu at brosesau gwella trylwyr.

Mae arweinwyr yn adolygu datblygiad y staff yn fwriadus ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ymysg y staff yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn ddeallus, ac yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu trwy gylch monitro manwl. Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau yn synhwyrol, gan ystyried baich gwaith a lles staff yn effeithiol. Mae cyfleoedd dysgu, fel teithiau i gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'u cynefin, yn hyrwyddo eu hymglymiad cymunedol yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn yn dylanwadu'n dda ar fywyd yr ysgol.

Mae'r sesiynau addysgu yn symud ar gyflymdra da, ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau difyr sy'n dilyn diddordebau disgyblion yn ddeallus. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu medrau llafaredd a darllen cadarn ac maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ddibenion amrywiol. Maent yn defnyddio medrau rhifedd a digidol pwrpasol yn hyderus ar draws y cwricwlwm ac yn datblygu tosturi a pharch at bobl eraill yn llwyddiannus.

Mae staff a disgyblion yn datblygu perthnasoedd gwaith clós a theyrngar, ac mae athrawon yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau'n frwdfrydig. Maent yn darparu adborth priodol i gefnogi disgyblion i wella'u dysgu. Er hyn, nid yw ansawdd adborth athrawon yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r amgylchedd dysgu yn gartrefol ac ysgogol ac yn cynnwys adnoddau cyfoethog, tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r cwricwlwm yn cynnig profiadau dysgu eang, sy'n adeiladu'n systematig ar fedrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol, emosiynol a chreadigol gwerthfawr, sy'n cefnogi ymwybyddiaeth ddiwylliannol gadarn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn nodi’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn effeithiol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae arweinwyr yn ymgymryd â’u rolau’n fedrus i greu diwylliant cynhwysol, sy’n canolbwyntio ar les disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r athroniaeth bwrpasol hon yn arwain at ethos cartrefol ac amgylchedd dysgu ysgogol, sy’n ganolog i strategaethau gwella’r ysgol. Trwy gyfleu eu gweledigaeth yn glir i staff a disgyblion, mae arweinwyr yn canolbwyntio’n fwriadus ar les disgyblion fel eu man cychwyn i ddatblygu’r ysgol. O ganlyniad, mae lles bron bob un o’r disgyblion yn gadarn. Caiff ei gefnogi gan awyrgylch anogol sy’n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol yn fuddiol. Mae bron bob un o’r disgyblion yn groesawgar i’w gilydd ac ymwelwyr. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau dysgu, ac maent yn ymddwyn yn rhagorol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn, sy’n cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais. Mae agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn gwrando’n astud, yn siarad yn hyderus, ac yn ymfalchïo yn eu gwaith a’u cynnydd.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwerthuso cryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu yn drylwyr a chydwybodol. Maent yn rhoi prosesau gwella trefnus ar waith sy’n arwain at welliannau cynaledig dros gyfnodau penodol. Er enghraifft, mae datblygiadau diweddar yn cynnwys cyfoethogi’r celfyddydau mynegiannol ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli datblygiad staff yn ddeallus ac yn darparu hyfforddiant buddiol i fynd i’r afael â meysydd sydd angen eu gwella, fel datblygu dulliau ymholi ac annibyniaeth disgyblion. Mae’r cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr yn hyrwyddo diogelwch ar-lein disgyblion yn dda ac yn mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn gelfydd, fel datblygu cwricwlwm eang a chytbwys.

Mae gan lywodraethwyr rôl hanfodol mewn cefnogi a herio arweinyddiaeth yr ysgol. Maent yn sicrhau defnydd effeithlon o’r gyllideb, sy’n cynnwys cyllido adnoddau i gyfoethogi’r dysgu. Yn ychwanegol, mae’r llywodraethwyr, ynghyd â staff, yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a’r dysgu. Maent yn cymryd rhan mewn cylch monitro rheolaidd sy’n dwyn athrawon i gyfrif yn drwyadl am effaith eu gwaith.

Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau yn grefftus i ddiwallu anghenion disgyblion. Maent yn ystyried baich gwaith a lles staff yn ofalus, gan ddatblygu perthnasoedd cynhyrchiol â rhieni, ysgolion lleol, asiantaethau cefnogi a’r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau fel diwrnodau entrepreneuraidd, fel rhedeg stondinau ym marchnad y dref. Hyrwydda gweithgareddau ymarferol fel hyn ddealltwriaeth disgyblion o wahanol yrfaoedd yn y byd gwaith o fewn eu cymuned yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu’n effeithio ar fywyd ysgol, eu cynefin a’r byd ehangach, sy’n cynnwys codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Maent yn defnyddio’r holl wybodaeth sydd ar gael yn synhwyrol i sicrhau bod trefniadau pontio rhwng dosbarthiadau a darparwyr eraill yn galluogi disgyblion ag ADY i fanteisio ar gymorth yn effeithiol. Mae staff yn cydweithio’n dda ag asiantaethau allanol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae’r perthnasoedd gwaith a’r parch rhwng staff a disgyblion yn gryf. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio’n dda â’u cyfoedion ac yn gwrando’n astud ar athrawon. Maent yn gofyn cwestiynau ystyriol ac yn cyfrannu’n huawdl at drafodaethau dosbarth. Mae medrau llafaredd cryf gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, ac maent yn mynegi eu barn a thrafod ffeithiau a’u teimladau yn hyderus. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg, gan ddatblygu medrau cyfathrebu boddhaol. Maent yn ymdrechu i ddefnyddio’r Gymraeg mewn gweithgareddau amrywiol ac yn cyfrannu’n addas at drafodaethau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Maent yn ddarllenwyr hyderus sy’n ymgysylltu’n synhwyrol â thestunau ac yn darllen â mynegiant. Er enghraifft, erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn darllen yn rhugl a gan sganio am wybodaeth yn effeithlon i gymharu tymheredd a glawiad Cymru ac India. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu’n llwyddiannus at ddibenion amrywiol. Maent yn ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau yn ddeallus ac yn dechrau gwella’u cyfraniadau trwy olygu ac ailddrafftio priodol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau rhifedd effeithiol ac yn eu defnyddio’n bwrpasol mewn gweithgareddau dilys. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio cloriannau’n dda i gymharu pwysau gwrthrychau gwahanol a’r disgyblion hŷn

yn defnyddio cyfesurynnau i greu siapiau mewn pedwar pedrant. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yn datblygu medrau digidol yn effeithiol trwy reoli teganau rhaglenadwy a defnyddio rhaglenni dysgu addysgol yn annibynnol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio cronfeydd data i storio data, creu siartiau, ac esbonio'u canfyddiadau yn synhwyrol.

Mae athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cymell disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn ystyriol. Mae holi effeithiol yr athrawon yn dyfnhau dysgu disgyblion ac yn eu helpu i adalw gwybodaeth flaenorol yn bwrpasol er mwyn creu cysylltiadau effeithiol yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon a chymorthyddion yn creu ystafelloedd dosbarth difyr ac ardaloedd allanol ysgogol, sy'n cynnwys adnoddau cyfoethog. Mae'r ddarpariaeth yn targedu datblygiad a dilyniant medrau disgyblion yn llwyddiannus ac yn annog disgyblion i ddysgu'n gynhyrchiol.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion gydweithio a rhannu syniadau i ddatblygu eu medrau. Mae hyn yn arfogi disgyblion i gyflwyno'u gwaith mewn ffyrdd amrywiol, fel cyflwyniadau digidol ar ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel. Mae athrawon yn darparu adborth priodol i alluogi disgyblion i ddeall tasgau'n well a gwella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw ansawdd adborth athrawon yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol. Mae'r sesiynau addysgu yn symud y dysgu ymlaen ar gyflymdra da ac mae gweithgareddau diddorol yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ymholi ac ymchwilio'n bwrpasol.

Mae'r cwricwlwm yn darparu ehangder a dyfnder da o ran dysgu ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae cynllunio gweithgareddau cytbwys yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog, sy'n adeiladu'n systematig ar fedrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach yn effeithiol. Er enghraifft, ar daith maes, maent yn dilyn llwybr yr afon Tywi o Lyn Brianne i Lansteffan ac yn astudio themâu rhyngwladol yn ystyrlon trwy ddathlu gwahanol ddiwylliannau.

Mae athrawon yn darparu cefnogaeth gref ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion gan feithrin teyrngarwch, myfyrdod a pharch yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad creadigol disgyblion yn dda, ac mae artistiaid gwadd yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon i gyfoethogi medrau cerddorol disgyblion. Caiff ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol eu hyrwyddo'n effeithiol. Er enghraifft, ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn deall manteision ailgylchu a ffyrdd cynaliadwy o fyw, yn gwerthfawrogi gwahanol gredoau, ac yn dangos goddefgarwch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2025